# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 2 – Amrywiol a Chyffredinol

### Cyffredinol

#### *Adran 23 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

92. Mae'r adran hon yn rhoi ei heffaith i'r Atodlen sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn yr i'r Mesur.

#### *Adran 24 – Gorchmynion a rheoliadau*

93. Mae is-adran (1) yn darparu bod unrhyw b#er sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur yn arferadwy drwy offeryn statudol.

94. Mae is-adran (2) yn pennu bod unrhyw b#er sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur yn cynnwys p#er i wneud gofynion gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu ar gyfer achosion penodol, ac i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed.

95. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd rheoliadau sy'n caniatáu treialu'r hawliau a roddir i blentyn o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

96. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw orchymyn, sy'n arfer y pwerau a roddwyd gan adran 18 neu 20 i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Mesur, gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

#### *Adran 25 – Gorchmynion a wnaed o dan adran 18: gweithdrefn*

97. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan adran 18 o'r Mesur. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud gorchymyn o dan adran 18, ymgynghori â phersonau â buddiant yr effeithir arnynt gan y cynigion, gan roi ystyriaeth i'r canfyddiadau yn yr adroddiad treialu ac ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### *Adran 26 – Cychwyn*

98. Yn yr adran hon nodir y trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur mewn perthynas ag adrannau 24, 25, 26 a 27 a pharagraffau 10 i 12 o'r Atodlen. Mae holl ddarpariaethau eraill y Mesur sy'n weddill yn dod i rym pan gânt eu cychwyn gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

#### *Adran 27 – Enw byr*

99. Mae'r adran hon yn cadarnhau mai enw'r Mesur yw Mesur Addysg (Cymru) 2009.